# Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

2013 dccc 2

## Nodiadau Esboniadol

# Food Hygiene Rating (Wales) Act 2013

2013 anaw 2

## Explanatory Notes

**£5.75**

# DEDDF SGORIO HYLENDID BWYD (CYMRU) 2013

---

## NODIADAU ESBONIADOL

**CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 22 Ionawr 2013 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 4 Mawrth 2013. Fe'u lluniwyd gan Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni.

**SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU**

**Adran 1 – Trosolwg**

2. Mae adran 1 yn rhoi trosolwg o'r darpariaethau allweddol yn y Ddeddf. Mae 28 o adrannau ac un Atodlen i'r Ddeddf. Diffinnir llawer o'r ymadroddion allweddol sydd yn y Ddeddf yn adran 25.

**Adran 2 – Rhaglen arolygiadau hylendid bwyd**

3. Mae adran 2 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau bwyd yng Nghymru (awdurdodau lleol ac awdurdodau porthladd) lunio rhaglenni arolygiadau o sefydliadau busnes bwyd yn eu hardaloedd er mwyn asesu safonau hylendid y sefydliadau hynny. Wrth lunio rhaglen arolygiadau, rhaid i'r awdurdod bwyd roi sylw i'r materion a bennir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ac a gymeradwyir gan Weinidogion Cymru. Rhaid i'r awdurdod bwyd wneud pob arolygiad o fusnesau bwyd yn ei ardal yn unol â'r rhaglen.

4. Nodir ystyr "awdurdod bwyd", "gweithredwr" a "sefydliad busnes bwyd" at ddibenion y Ddeddf yn adran 2(5). Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r diffiniadau o "sefydliadau busnes bwyd" ac "awdurdod bwyd".

**Adran 3 – Sgoriau hylendid bwyd**

5. Mae adran 3 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod bwyd asesu safonau hylendid bwyd sefydliad busnes bwyd a llunio sgôr hylendid bwyd, sydd wedi ei chynhyrchu yn erbyn y meini prawf sgorio a gyhoeddir gan yr ASB.

6. Rhaid i'r awdurdod bwyd anfon at weithredwr y sefydliad:
- hysbysiad ysgrifenedig o'i sgôr hylendid bwyd;
- datganiad ysgrifenedig o'r rhesymau dros y sgôr;
- sticer sgôr hylendid bwyd (mae ffurf y sticer i'w rhagnodi mewn rheoliadau); ac
- unrhyw wybodaeth arall a nodir mewn rheoliadau.

7. Rhaid anfon yr hysbysiad, y datganiad, y sticer a'r wybodaeth cyn pen 14 o ddiwrnodau ar ôl yr arolygiad gan yr awdurdod bwyd.

# FOOD HYGIENE RATING (WALES) ACT 2013

---

## EXPLANATORY NOTES

### INTRODUCTION

1. These Explanatory Notes are for the Food Hygiene Rating (Wales) Act 2013 which was passed by the National Assembly for Wales on 22 January 2013 and received Royal Assent on 4 March 2013. They have been prepared by the Department for Health, Social Services and Children of the Welsh Government to assist the reader of the Act. The Explanatory Notes should be read in conjunction with the Act but are not part of it.

### COMMENTARY ON SECTIONS

#### Section 1 – Overview

2. Section 1 provides an overview of the key provisions in the Act. The Act has 28 sections and one Schedule. Many key expressions in the Act are defined in section 25.

#### Section 2 – Programme of food hygiene inspections

3. Section 2 requires food authorities in Wales (local authorities and port authorities) to prepare programmes of inspections of food business establishments in their areas in order to assess the hygiene standards of those establishments. In preparing a programme of inspections the food authority must have regard to the matters specified by the Food Standards Agency (FSA) and approved by the Welsh Ministers. The food authority must carry out all inspections of food businesses in its area in accordance with the programme.

4. The meaning of "food authority", "food business establishment" and "operator" for the purpose of the Act is set out in section 2(5). The Welsh Ministers may, by regulations, amend the definitions of "food business establishment" and "food authority".

#### Section 3 – Food hygiene ratings

5. Section 3 requires a food authority to assess the food hygiene standards of a food business establishment and produce a food hygiene rating, scored against the rating criteria published by the FSA.

6. The food authority must send to the operator of the establishment:
   - written notification of its food hygiene rating;
   - a written statement of the reasons for the rating;
   - a food hygiene rating sticker (the form of the sticker is to be prescribed in regulations); and
   - any other information which may be set out in regulations.

7. The notification, statement, sticker and information must be sent within 14 days of the inspection by the food authority.

8. Mae'r sgôr yn peidio â bod yn ddilys os yw'r sefydliad busnes bwyd yn cael hysbysiad am sgôr hylendid bwyd newydd, neu pan fo perchenogaeth ar y sefydliad busnes bwyd wedi ei throsglwyddo neu fod y sefydliad hwnnw wedi cau.

9. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n esemptio categorïau penodol o sefydliad rhag cael eu sgorio.

10. Mae is-adran (2) yn darparu pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i alluogi sgoriau i gael eu rhoi ar gyfer asesiadau a wnaed cyn i'r Ddeddf gael ei chychwyn. Er enghraifft, gellid dibynnu ar ganfyddiadau arolygiad blaenorol a wnaed gan yr awdurdod bwyd, fel rhan o gynllun gwirfoddol blaenorol yr ASB, pan fo'r awdurdod bwyd yn dyroddi sgôr o dan y cynllun statudol ar ôl i'r Ddeddf gael ei chychwyn.

**Adran 4 – Y meini prawf sgorio**

11. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r meini prawf sgorio (a gyhoeddir gan yr ASB o dan adran 14(1)(c)) gynnwys system i sgorio safonau hylendid sefydliad busnes bwyd.

**Adran 5 – Yr hawl i apelio**

12. Mae adran 5 yn sefydlu'r weithdrefn i weithredwr sefydliad busnes bwyd ei dilyn i apelio yn erbyn sgôr a roddwyd i'r sefydliad, a'r seiliau y caniateir i apêl o'r fath gael ei gwneud arnynt. Mae Gweinidogion Cymru yn rhag-weld y caiff canllawiau ar apelau eu cynnwys mewn canllawiau a ddyroddir ganddynt o dan adran 23.

13. Mae gan y gweithredwr 21 o ddiwrnodau i apelio, o'r dyddiad y derbynnir yr hysbysiad am y sgôr. Rhaid i awdurdod bwyd benderfynu'r apêl (a chaniateir i arolygiad pellach gael ei wneud er mwyn ystyried yr apêl), ac anfon at y gweithredwr hysbysiad am ei benderfyniad. Cynhelir yr apêl gan swyddog awdurdodedig nad oedd yn gysylltiedig â'r gwaith o asesu'r sgôr hylendid bwyd sy'n destun yr apêl. Rhaid penderfynu ar apelau cyn pen 21 o ddiwrnodau ar ôl i'r awdurdod bwyd eu derbyn.

14. Os yw'r awdurdod bwyd, ar sail apêl, yn penderfynu newid y sgôr, rhaid anfon sticer sgôr newydd at y gweithredwr ar yr un pryd ag y mae'r awdurdod bwyd yn hysbysu'r gweithredwr am ei benderfyniad.

15. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n darparu bod apêl yn cael ei phenderfynu gan berson ac eithrio'r awdurdod bwyd.

**Adran 6 – Hysbysu am sgoriau hylendid bwyd a'u cyhoeddi**

16. Mae adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod bwyd hysbysu'r ASB am y sgoriau y mae wedi eu rhoi i sefydliadau busnes bwyd yn ei ardal, ac mae'n nodi terfynau amser erbyn pryd y mae'n rhaid gwneud hyn. Yna, rhaid i'r ASB gyhoeddi'r sgoriau hynny ar ei gwefan.

17. Mae is-adran (2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod bwyd roi gwybodaeth bellach i'r ASB wrth ei hysbysu o sgoriau.

8. The rating ceases to be valid if the food business establishment receives notification of a new food hygiene rating, or when there has been a transfer of ownership or closure of the food business establishment.

9. The Welsh Ministers may make regulations exempting certain categories of establishment from rating.

10. Subsection (2) provides the Welsh Ministers with powers to make regulations to enable ratings to be given for assessments carried out before the commencement of the Act. For example, the findings of a previous inspection undertaken by the food authority as part of the previous voluntary FSA scheme could be relied upon when the food authority issues a rating under the statutory scheme after the Act is commenced.

## Section 4 – Rating criteria

11. This section requires the rating criteria (published by the FSA under section 14(1)(c)) to include a system to score a food business establishment's hygiene standards.

## Section 5 – Right of appeal

12. Section 5 establishes the procedure for an operator of a food business establishment to appeal against a rating given to the establishment, and the grounds upon which such an appeal may be made. The Welsh Ministers anticipate guidance on appeals being included in guidance to be issued by them under section 23.

13. The operator has 21 days to appeal, from the date the rating notification is received. A food authority must determine the appeal (and a further inspection can be carried out in order to consider the appeal), and send the operator notification of its decision. The appeal must be conducted by an authorised officer who was not involved in the assessment of the food hygiene rating that is being appealed. Appeals must be decided within 21 days of being received by the food authority.

14. If, on the basis of appeal, the food authority decides to change the rating, a new rating sticker must be sent to the operator at the same time as the food authority notifies the operator of its decision.

15. The Welsh Ministers may make regulations providing for an appeal to be determined by a person other than the food authority.

## Section 6 – Notification and publication of food hygiene ratings

16. Section 6 requires a food authority to inform the FSA of the ratings that it has awarded to food business establishments in its area, and sets out timescales within which this must be done. The FSA must then publish those ratings on its website.

17. Subsection (2) provides the Welsh Ministers with power to make regulations to require a food authority to provide the FSA with further information when informing the FSA of ratings.

18. Subsection (3) provides the Welsh Ministers with power to make regulations to require the FSA to publish additional information on its website.

18. Mae is-adran (3) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i'r ASB gyhoeddi gwybodaeth ychwanegol ar ei gwefan.

**Adran 7 – Y gofyniad i arddangos sticeri sgôr hylendid bwyd**

19. Mae adran 7 yn darparu bod yn rhaid i weithredwr sefydliad busnes bwyd, pan fydd wedi cael hysbysiad am ei sgôr gan yr awdurdod bwyd, arddangos y sticer yn y sefydliad bwyd o fewn 21 o ddiwrnodau. Mae'r cyfnod hwn o 21 o ddiwrnodau yn rhoi cyfle i'r gweithredwr apelio yn erbyn y sgôr. Os bydd y gweithredwr yn apelio, ni fydd y rhwymedigaeth i arddangos y sgôr yn gymwys hyd nes y bydd y gweithredwr yn cael hysbysiad am ganlyniad yr apêl.

20. Bydd Gweinidogion Cymru yn rhagnodi, mewn rheoliadau, y man lle y mae'n rhaid arddangos y sticer a'r modd y mae'n rhaid ei arddangos; caiff rheoliadau hefyd ragnodi'r man a'r modd priodol ar gyfer arddangos sticer mewn gwahanol fathau o sefydliad.

21. Bydd y sticer yn peidio â bod yn ddilys pan fydd y sgôr y mae'n ymwneud â hi yn peidio â bod yn ddilys (gweler paragraff 8 uchod). Pan fydd sticer yn peidio â bod yn ddilys, rhaid i'r gweithredwr ei dynnu o'r man lle y mae'n cael ei arddangos a'i ddistrywio, oni chaiff ei gyfarwyddo i beidio â'i ddistrywio gan awdurdod bwyd.

**Adran 8 – Ceisiadau am wybodaeth am sgoriau hylendid bwyd**

22. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr busnes bwyd a chyflogeion mewn sefydliad busnes bwyd sy'n delio â chwsmeriaid ymateb i geisiadau gan y cyhoedd am gadarnhad o sgôr hylendid bwyd y sefydliad ar lafar. Rhaid i'r gweithredwr sicrhau bod y cyflogeion yn ymwybodol o'r sgôr er mwyn iddynt allu ymateb i geisiadau.

**Adran 9 – Troseddau**

23. Mae adran 9 yn creu trosedd o ran arddangos a chadw sticeri'n gywir ac o ran methiant i ymateb i geisiadau am gadarnhad o'r sgoriau ar lafar. Mae'r troseddau hyn yn gymwys i weithredwyr busnesau bwyd ac maent oll yn ddarostyngedig i amddiffyniad esgus rhesymol.

24. Mae'r adran hon hefyd yn ei gwneud yn drosedd i unrhyw un, yn fwriadol, newid, difwyno neu ymyrryd â sticer, ac eithrio pan fo'r sticer yn annilys ac y dylai gael ei ddistrywio yn unol ag adran 7(6). Nid oes amddiffyniad esgus rhesymol mewn perthynas â'r troseddau hyn.

**Adran 10 – Hyrwyddo sgoriau hylendid bwyd**

25. Mae adran 10 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i weithredwr sefydliad busnes bwyd (neu berson sy'n gweithredu ar ran y gweithredwr) roi cyhoeddusrwydd i sgôr hylendid bwyd y sefydliad.

26. Caiff y rheoliadau ragnodi sut y mae'n rhaid i'r gweithredwr hyrwyddo sgôr ei sefydliad yn electronig ac mewn deunydd sy'n hyrwyddo'r bwyd y mae'r sefydliad yn ei ddarparu. Hefyd, caiff y rheoliadau wneud darpariaeth wahanol ar gyfer

**Section 7 – Requirement to display food hygiene rating stickers**

19. Section 7 provides that when the operator of a food business establishment has received notification of its rating from the food authority, the operator has 21 days within which they must display the sticker at the food establishment. This 21-day period provides the operator with the opportunity to appeal against the rating. If the operator appeals, the obligation to display the rating does not apply until the operator receives notification of the outcome of the appeal.

20. The Welsh Ministers will prescribe, in regulations, the location and manner in which the sticker must be displayed; regulations may also prescribe the proper location and manner for displaying a sticker at different types of establishment.

21. The sticker ceases to be valid when the rating to which it relates ceases to be valid (see paragraph 8 above). When a sticker ceases to be valid the operator must remove the sticker from display and destroy it, unless instructed not to destroy it by a food authority.

**Section 8 – Requests for information about food hygiene ratings**

22. This section requires a food business operator and employees at a food business establishment who deal with customers to respond to requests from members of the public for verbal confirmation of the establishment's food hygiene rating. The operator must ensure that the employees are aware of the rating so that they can respond to requests.

**Section 9 - Offences**

23. Section 9 creates criminal offences relating to the proper display and retention of stickers and failure to respond to requests for verbal confirmation of ratings. These offences apply to food business operators and are all subject to a reasonable excuse defence.

24. This section also makes it an offence for anyone to intentionally alter, deface, or tamper with a sticker, except where the sticker is invalid and is to be destroyed in accordance with section 7(6). There is no reasonable excuse defence in relation to these offences.

**Section 10 – Promoting food hygiene ratings**

25. Section 10 provides the Welsh Ministers with power to make regulations to require an operator of a food business establishment (or a person acting on the operator's behalf) to promote the establishment's food hygiene rating.

26. The regulations may prescribe how the operator must publicise their establishment's rating electronically and in material promoting the food provided by the establishment. The regulations may also make different provision for different types of establishment, create an offence, impose a penalty or allow for enforcement of the requirement.

**Section 11 – Right to reply**

27. Section 11 requires a food authority to give the operator of a food business establishment the opportunity to comment (in writing) to the food authority on the

gwahanol fathau o sefydliad, creu trosedd, gosod cosb neu ganiatáu ar gyfer gorfodi'r gofyniad.

**Adran 11 – Yr hawl i ateb**

27. Mae adran 11 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod bwyd roi cyfle i weithredwr sefydliad busnes bwyd gyflwyno sylwadau (yn ysgrifenedig) ar sgôr y sefydliad i'r awdurdod bwyd. Rhaid anfon unrhyw sylwadau a gaiff yr awdurdod bwyd o dan yr adran hon ymlaen at yr ASB, a gaiff gyhoeddi'r sylwadau ar ei gwefan ynghyd â sgôr y sefydliad busnes bwyd.

**Adran 12 – Ailsgoriadau hylendid bwyd**

28. Mae'r adran hon yn galluogi gweithredwr sefydliad busnes bwyd i ofyn i'r awdurdod bwyd wneud asesiad ailsgorio er mwyn ystyried a ddylid newid sgôr. Os bodlonir yr amodau a nodir yn yr adran hon, (gan gynnwys y gofyniad bod y gweithredwr wedi talu costau rhesymol yr ailsgoriad), rhaid i'r awdurdod bwyd wneud arolygiad heb fod yn hwyrach na thri mis ar ôl i'r awdurdod bwyd gael y cais.

29. Os bydd yr ailsgoriad yn arwain at newid i'r sgôr, rhaid i'r awdurdod bwyd ddyroddi'r sgôr ddiwygiedig i'r gweithredwr cyn pen 14 o ddiwrnodau. Fel arall, pan nad oes sgôr ddiwygiedig i'w dyroddi, rhaid hysbysu'r gweithredwr cyn pen 14 o ddiwrnodau ar ôl i'r arolygiad gael ei gwblhau.

30. Mae'r hawl i apelio a'r hawl i ateb yn gymwys i unrhyw sgôr hylendid bwyd newydd, ac unrhyw sgôr sydd heb ei newid.

**Adran 14 – Dyletswyddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd**

31. Mae adran 14 yn nodi dyletswyddau cyffredinol yr ASB mewn perthynas â'r cynllun sgorio hylendid bwyd, sy'n cynnwys cyhoeddi'r meini prawf sgorio (sydd wedi eu sefydlu o dan adran 3), adolygu gweithrediad y cynllun sgorio hylendid bwyd sydd wedi ei sefydlu o dan y Ddeddf hon, a gweithrediad y system apelau (sydd wedi ei sefydlu o dan adran 5) a hyrwyddo'r cynllun ymhlith sefydliadau busnes bwyd a chwsmeriaid yng Nghymru.

32. Rhaid rhoi copi o'r adroddiad(au) a baratowyd gan yr ASB ar weithrediad y cynllun a'r system apelau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac anfon copi at Weinidogion Cymru.

**Adran 15 – Pwerau a chyfrifoldebau eraill awdurdodau bwyd**

33. Mae adran 15 yn darparu bod yn rhaid i awdurdod bwyd, pan fydd yn cofrestru neu'n cael cais am gymeradwyaeth gan sefydliad busnes bwyd newydd, anfon gwybodaeth (sydd i'w rhagnodi gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau) at y gweithredwr cyn pen 14 o ddiwrnodau. (Mae deddfwriaeth hylendid bwyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhan fwyaf o sefydliadau busnes bwyd gofrestru gyda'u hawdurdod bwyd, ond rhaid i rai busnesau gael cymeradwyaeth gan eu hawdurdod bwyd).

34. Mae'r adran hefyd yn darparu bod yn rhaid i'r awdurdod bwyd roi sylw i argymhellion a wneir gan yr ASB a chanllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru a bod yn rhaid iddo wneud trefniadau i orfodi'r rhwymedigaethau o dan y

establishment's rating. Any comments received by the food authority under this section must be forwarded to the FSA, who may publish the comments on their website with the food business establishment's rating.

**Section 12 – Food hygiene re-ratings**

28. This section enables the operator of a food business establishment to request the food authority to carry out a re-rating assessment for the purpose of considering whether to change a rating. If the conditions set out in this section are met, (including the requirement that the operator has paid the reasonable costs of the re-rating) the food authority must carry out an inspection no later than three months after the food authority received the request.

29. If the re-rating results in a change to the rating, the food authority must issue the revised rating to the operator within 14 days. Alternatively where no revised rating is to be issued, the operator must be notified of that within 14 days of the completion of the inspection.

30. The right of appeal and of reply apply to any new food hygiene rating, and any unaltered rating.

**Section 14 – Duties of Food Standards Agency**

31. Section 14 sets out the general duties of the FSA in relation to the food hygiene rating scheme, which includes publishing the rating criteria (established under section 3), reviewing the operation of the food hygiene rating scheme established under this Act, and the operation of the appeals system (established under section 5), and promoting the scheme to food business establishments and consumers in Wales.

32. A copy of the report(s) prepared by the FSA on the operation of scheme and the appeals system must be laid before the National Assembly for Wales, and sent to the Welsh Ministers.

**Section 15 – Other powers and responsibilities of food authorities**

33. Section 15 provides that when a food authority registers, or receives an application for approval from a new food business establishment, it must send information (to be prescribed by the Welsh Ministers in regulations) to the operator within 14 days. (Food hygiene legislation requires most food business establishments to register with their food authority, but some businesses have to obtain approval from their food authority).

34. The section also provides that the food authority must have regard to recommendations made by the FSA and guidance issued by the Welsh Ministers and must make arrangements to enforce the obligations under the Act on food business establishments in its area. The food authority must review the operation of the scheme in its area to ensure that the rating criteria are assessed fairly and consistently and assist the FSA in any evaluation of the scheme undertaken by the FSA (for example under section 14).

Ddeddf ar sefydliadau busnes bwyd yn ei ardal. Rhaid i'r awdurdod bwyd adolygu gweithrediad y cynllun yn ei ardal er mwyn sicrhau bod y meini prawf sgorio yn cael eu hasesu'n deg ac yn gyson a chynorthwyo'r ASB mewn unrhyw werthusiad o'r cynllun a wneir gan yr ASB (er enghraifft o dan adran 14).

**Adran 16 – Cyfrifoldebau eraill gweithredwyr sefydliadau busnes bwyd**

35. Mae adran 16 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr sefydliad busnes bwyd ddarparu gwybodaeth a phob cymorth rhesymol i'r awdurdod bwyd i'w alluogi i lunio sgôr hylendid bwyd ar gyfer y sefydliad ac arfer ei swyddogaethau eraill o dan y ddeddfwriaeth.

**Adran 17 – Pŵer mynediad**

36. Mae adran 17 yn darparu i swyddog awdurdodedig i awdurdod bwyd, ar ôl iddo ddangos awdurdod ysgrifenedig, bŵer i fynd i mewn i sefydliad busnes bwyd at ddibenion penodedig sy'n ymwneud â'r Ddeddf.

**Adran 19 – Troseddau gan gyrff corfforaethol**

37. Mae adran 19 yn darparu, pan fydd corff corfforaethol (megis cwmni, neu unrhyw gorff arall a gorfforir drwy statud) yn cyflawni trosedd o dan y Ddeddf hon, y bydd cyfarwyddwr, rheolwr neu ysgrifennydd y corff hwnnw (neu unrhyw un sy'n honni ei fod yn gweithredu mewn rôl o'r fath) hefyd yn euog o drosedd mewn amgylchiadau pan geir eu bod yn bersonol feius.

**Adran 20 – Cosbau**

38. Mae adran 20 yn darparu bod troseddau o dan y Ddeddf hon yn rhai y gellir eu rhoi ar brawf yn y Llys Ynadon a'u cosbi drwy ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol (£1,000 ar hyn o bryd).

**Adran 21 – Cosbau penodedig**

39. Mae adran 21 yn galluogi swyddog awdurdodedig i awdurdod bwyd i ddyroddi hysbysiad cosb benodedig (HCB) i berson y mae ganddo reswm i gredu ei fod wedi cyflawni trosedd o dan y Ddeddf. Caiff swyddog awdurdodedig gynnig cyfle i'r person hwnnw fodloni unrhyw atebolrwydd i gollfarn am y drosedd drwy dalu cosb benodedig. Os na thelir y gosb benodedig, bydd yr awdurdod bwyd yn cadw'r pŵer i erlyn. Mae'r adran hon hefyd yn cyflwyno Atodlen 1.

40. Mae Rhan 1 o Atodlen 1 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer hysbysiadau cosb benodedig a lefelau cosbau penodedig sy'n daladwy mewn cysylltiad â throsedd o dan y Ddeddf. Mae paragraffau 1 a 2 yn darparu y dylai'r hysbysiad cosb benodedig fod yn £200 i'w dalu o fewn 28 niwrnod, gyda chosb ddisgownt o £150 os telir yr hysbysiad cosb benodedig o fewn 14 diwrnod. Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi swm gwahanol ar gyfer y gosb neu'r gosb ddisgownt.

41. Mae rhan 2 o Atodlen 1 yn gwneud darpariaeth o ran ffurf a chynnwys hysbysiadau cosb benodedig.

**Adran 23 – Canllawiau**

42. Mae adran 23 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau bwyd a'r ASB mewn perthynas ag arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf. Rhaid i'r awdurdod bwyd a'r ASB roi sylw i'r canllawiau hyn.

### Section 16 – Other responsibilities of operators of food business establishments

35. Section 16 requires an operator of a food business establishment to provide information and all reasonable assistance to the food authority to enable it to produce a food hygiene rating for the establishment and to exercise its other functions under the legislation.

### Section 17 – Power of entry

36. Section 17 provides an authorised officer of a food authority, on production of written authority, with power of entry to a food business establishment for specified purposes to do with the Act.

### Section 19 – Offences by bodies corporate

37. Section 19 provides that where a body corporate (such as a company, or any other body incorporated by statute) commits an offence under this Act, a director, manager or secretary of that body (or anyone purporting to act in any such capacity) will also be guilty of an offence in circumstances where they are found to be personally culpable.

### Section 20 – Penalties

38. Section 20 provides that offences under this Act are triable in the Magistrates Court and punishable by a fine not exceeding level 3 on the standard scale (currently £1,000).

### Section 21 – Fixed penalties

39. Section 21 enables an authorised officer of a food authority to issue a fixed penalty notice (FPN) to a person they have reason to believe has committed an offence under the Act. An authorised officer may offer that person the opportunity to discharge any liability to conviction for the offence by payment of a fixed penalty. If the fixed penalty is not paid, the food authority retains the power to prosecute. This section also introduces Schedule 1.

40. Part 1 of Schedule 1 sets out the procedure for fixed penalty notices and the level of fixed penalties payable in respect of an offence under the Act. Paragraphs 1 and 2 provide that the FPN should be £200 to be paid in 28 days, with a discounted penalty of £150 if the FPN is paid within 14 days. The Welsh Ministers may make regulations to prescribe a different amount for the penalty or the discounted penalty.

41. Part 2 of Schedule 1 makes provision in relation to the form and content of fixed penalty notices.

### Section 23 – Guidance

42. Section 23 gives the Welsh Ministers power to issue guidance to food authorities and the FSA in relation to the exercise of their functions under the Act. The food authority and the FSA must have regard to this guidance.

### Section 25 – Interpretation

43. This section defines terms used in the Act and also confirms that reference to a food hygiene sticker in the Act includes reference to more than one sticker (where the context requires).

## Adran 25 – Dehongli

43. Mae'r adran hon yn diffinio'r termau a ddefnyddir yn y Ddeddf ac mae hefyd yn cadarnhau bod cyfeiriad at sticer hylendid bwyd yn y Ddeddf yn cynnwys cyfeiriad at fwy nag un sticer (pan fo hynny'n ofynnol gan y cyd-destun).

## COFNOD Y TRAFODION YNG NGHYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

44. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o hynt y Ddeddf drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir dod o hyd i Gofnod y Trafodion a gwybodaeth bellach ar hynt y Ddeddf hon ar wefan Cynulliad Cymru yn: http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=3812

| **Cyfnod** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Cyflwynwyd | 28 Mai 2012 |
| Cyfnod 1 - Dadl | 16 Hydref 2012 |
| Cam 2 Y Pwyllgor Craffu - ystyried y gwelliannau | 7 Tachwedd 2012 |
| Cyfnod 3 Y Cyfarfod Llawn - ystyried ygwelliannau | 22 Ionawr 2013 |
| Cyfnod 4 Cymeradwywyd gan y Cynulliad | 22 Ionawr 2013 |
| Y Cydsyniad Brenhinol | 4 Mawrth 2013 |

©Ⓟ Hawlfraint y Goron 2013

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

## RECORD OF PROCEEDINGS IN THE NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

44. The following table sets out the dates for each stage of the Act's passage through the National Assembly for Wales. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Act can be found on the National Assembly for Wales' website at: **http://www.senedd.assemblywales.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=3812**

| **Stage** | **Date** |
|---|---|
| Introduced | 28 May 2012 |
| Stage 1 - Debate | 16 October 2012 |
| Stage 2 Scrutiny Committee – consideration of amendments | 7 November 2012 |
| Stage 3 Plenary - consideration of amendments | 22 January 2013 |
| Stage 4 Approved by the Assembly | 22 January 2013 |
| Royal Assent | 4 March 2013 |

© Crown copyright 2013

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**Cyhoeddwyd gan TSO (The Stationery Office)**
ac ar gael o:

**Arlein**
**www.tsoshop.co.uk**

**Post, Teleffôn, Ffacs ac E-bost**
TSO, PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion teleffôn/ Ymholiadau cyffredinol:
0870 600 5522
Archebwch drwy Linell wybodaeth galwad
isel Parliamentary: 0845 702 3474
Archebion Ffacs: 0870 600 5533
E-bostiwch: customer.service@tso.co.uk
Ffôn Destun: 0870 240 3701

**Siop Senedd y DU**
12 Bridge Street, Parliament Square, London SW1A 2JX
Archebion teleffôn/ Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bostiwch: shop@parliament.uk
Y we: http://www.shop.parliament.uk

**TSO @ Blackwell ac Asiantwyr Achrededig eraill**

**Published by TSO (The Stationery Office)** and available from:

**Online**
**www.tsoshop.co.uk**

**Mail, Telephone, Fax & E-mail**
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
General enquiries: 0870 600 5522
Order through the Parliamentary Hotline *Lo-call* 0845 7 023474
Fax orders: 0870 600 5533
E-mail: customer.service@tso.co.uk
Textphone: 0870 240 3701

**The Houses of Parliament Shop**
12 Bridge Street, Parliament Square,
London SW1A 2JX
Telephone orders: 020 7219 3890
General enquiries: 020 7219 3890
Fax orders: 020 7219 3866
Email: shop@parliament.uk
Internet: http://www.bookshop.parliament.uk

**TSO @ Blackwell and other Accredited Agents**

ISBN 978-0-348-10531-5

9 780348 105315